HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Mae'r bathodyn herodrol hwn yn emblem sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos ffyddlondeb i unigolyn neu i deulu. Roedd bathodynnau o'r fath yn cael eu gwisgo ar ddillad dilynwyr neu weision y Marchogion ers talwm. Er enghraifft, yr oedd y Croesgadwyr yn gwisgo Croes Goch. Byddai'r bathodyn yn cael ei frodio ar ddillad swyddogol ac eitemau eraill i ddangos pwy oedd eu perchennog.

Bathodyn herodrol Tywysog Cymru ydy plu Tywysog Cymru. Caiff y bathodyn ei wisgo gan chwaraewyr yn nhimau Undeb Rygbi Cymru. Mae sawl catrawd sydd â chysylltiad hanesyddol â Thywysog Cymru yn gwisgo'r bathodyn hefyd.

Mae bathodyn yr Heddlu Sifil Niwclear wedi cael ei ddylunio i ddangos ei deyrngarwch mewn nifer o ffyrdd:

- mae'r canol yn dangos ei deyrngarwch i'r Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear trwy gynnwys y Griffin sydd ar Arfbais yr Awdurdod
- mae defnyddio Seren Brunswick yn dangos ei deyrngarwch i'r Gwasanaeth Heddlu
- mae'r goron yn dangos ei deyrngarwch i'w Mawrhydi'r Frenhines.

Oes gennych chi fathodyn ysgol?

Beth mae'r bathodyn yn ei gynrychioli?

Gellwch dynnu llun y bathodyn yma – neu lluniwch eich bathodyn eich hun.

Bathodyn Heddlu Gogledd Cymru

Arfbais yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear

Bathodyn yr Heddlu Sifil Niwclear

Fedrwch chi ddarganfod y pethau sydd yr un fath ar bob bathodyn?

1…….

2……

3……..